

BLAENORIAETH 1 CGE: Trechu Tlodi trwy Gyflogaeth Gynaliadwy

Amcanion Penodol B1 CGE

- Cynyddu cyflogadwyedd y rhai sydd agosaf at y farchnad lafur sydd fwyaf mewn risg o dlodi.
- Cynyddu cyflogadwyedd pobl sydd yn economaidd anweithgar a phobl ddi-waith tymor hir sydd 25 oed a drosodd, gyda rhwystrau cymhleth i gyflogaeth
- Lleihau diweithdra neu gyfraddau absenoldebau ar gyfer unigolion sydd â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gwaith a/neu rhwystrau eraill at ymgysylltedd cynaliadwy gyda'r farchnad lafur.

Ledled Cymru

Gorllewin Cymru a'r Cymoedd -
WWV

Dwyrain Cymru - EW

OPUS

Yn cefnogi pobl 25+ oed sy'n economaidd anweithgar ac yn ddi-waith tymor hir sy'n anodd eu cyrraedd, gyda nifer o rwystrau i sgiliau a chyflogaeth, ac nad ydynt yn byw mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

RCS Cymru - Cymru Iach Ar Waith -Cymorth yn y Gwaith

Yn darparu cymorth sy'n canolbwyntio ar fynediad cyflym i waith a therapiau ar gyfer pobl gyflogedig a hunangyflogedig sydd ar neu mewn risg o absenoldeb salwch. Mae'n darparu cymorth, canllawiau a hyfforddiant ar gyfer cyflogwyr busnesau bach a chanolig gyda'r nod o wella diwylliant ac arferion o ran lles y gweithle.

Ehangu Gorwelion Môn

Cefnogi'r rhai mewn gwaith i sicrhau mwy o oriau o waith am dâl er mwyn cynyddu eu potensial enillion. Gweithio gyda chyflogwyr, gan ganolbwyntio yn benodol ar fusnesau bach a chanolig lleol i fabwysiadu neu wella eu strategaethau gweithle presennol gan gynnwys Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

ReAct 111/ReAct Plus

Yn cefnogi pobl sydd wedi colli swydd neu mewn perygl o gollu swydd, i ddod o hyd i gyflogaeth. Cyngor a Chanllawiau gan Gyrrfa Cymru, grantiau hyfforddi a chymorthdaliadau cyflog ar gyfer gweithwyr.

Cyflawni Newid trwy Gyflogaeth (ACE)

Yn cefnogi pobl BAME ac wedi mudo yng Nghymru sy'n gymwys i weithio yn y DU. Cymorth grymuso a mentora ar gyfer hyfforddiant, gwirfoddoli a chyflogaeth.

Cyfle Cymru - Cymru Iach ar Waith - Gwasanaeth Allan o Waith

Mentora Cymheiriaid a gwasanaethau cyflogaeth arbenigol i gyflawni canlyniadau cyflogaeth ar gyfer pobl 25+ oed gyda phroblemau camddefnyddiwr sylweddau a/neu iechyd meddwl.

JobSense

Gwasanaeth cyflogaeth arbenigol wedi'i deilwra tuag at bobl gyda nam ar y synhwyrau 25+ oed. Wedi'i ddarparu gan Action on Hearing Loss, Canolfan Arwyddo-Golwg-Sain a Chyflogaeth â Chymorth ELITE

Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PACE)

Helpu rhieni economaidd anweithgar 25+ oed i waith cynaliadwy a darparu datrysiadau i oresgyn rhwystrau gofal plant.

Cymunedau am Waith

Cymorth mentora a chyflogaeth i helpu oedolion sy'n ddi-waith yn y tymor hir ac economaidd anweithgar mewn grwpiau anodd eu cyrraedd i mewn i waith. Ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

CGGC – Cronfa Cynhwysiad Gweithredol

Gweithrediadau o amryw o sefydliadau'r trydydd sector i ddarparu gweithgarwch pwrpasol i leihau nifer y bobl economaidd anweithgar a di-waith tymor hir.